# CYNGOR BRO MORGANNWG
# POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD

Mae'r Polisi hwn wedi'i ddrafftio gan roi sylw i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol Interim Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfarfodydd Aml-Leoliad (Awst 2021).

Mae'r Polisi hwn yn ychwanegol at Weithdrefnau Cyfarfodydd o Bell y Cyngor a Rheolau Gweithdrefn y Cyngor fel y'u cynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Mawrth 2023

VALE of GLAMORGAN

BRO MORGANNWG

# POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf y Coronafeirws 2020, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Reoliadau (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, 'Rheoliadau Cyfarfodydd 2020'), a laciodd y rheolau dros dro ar gyfer cyfarfodydd awdurdodau lleol yn ystod cyfnod ymateb COVID-19. Bwriad Rheoliadau Cyfarfodydd 2020 oedd galluogi Cynghorau i barhau i gyflawni eu swyddogaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig, wrth gadw at gyfyngiadau a chanllawiau iechyd y cyhoedd.

Daeth darpariaethau Rheoliadau Cyfarfodydd 2020 i ben ar 30 Ebrill 2021 ac fe'u disodlwyd gan ddarpariaethau newydd ar gyfer cyfarfodydd Awdurdodau Lleol a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf"), y byddai rhai ohonynt yn dod i rym o 1 Mai 2021 ac eraill o 5 Mai 2022.

Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol Interim ar gyfer Cyfarfodydd Aml-Leoliad sydd i'w gweld yn:
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-08/interim-statutory-guidance-on-multi-location-meetings.pdf

## 1. Beth yw Cyfarfod Aml-Leoliad?

1.1 Mae Cyfarfod Aml-Leoliad (CAL) yn gyfarfod nad yw ei gyfranogwyr i gyd yn yr un lle ffisegol. Mae'n bosibl bod rhai o'r cyfranogwyr yn bresennol yn y lleoliad cyfarfod yn ffisegol tra bod eraill yn ymuno o'u cartref neu leoliad anghysbell arall.

1.2 O dan y Ddeddf, mae darpariaethau Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i gynnull Cyfarfodydd Aml-leoliad er mwyn galluogi mwy o hygyrchedd a chyfranogiad y cyhoedd ym mhroses gwneud penderfyniadau Llywodraeth Leol.

1.3 Roedd Adran 47 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud a chyhoeddi trefniadau sy'n sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd Awdurdodau Lleol trwy ddefnyddio unrhyw offer neu gyfleuster arall sy'n galluogi cwrdd â chyfranogwyr nad ydynt yn yr un lle i fynychu'r cyfarfodydd a gallu siarad â'i gilydd a'u clywed. (Daeth y ddarpariaeth hon i rym ar 1 Mai 2021 a chymeradwywyd Polisi'r Cyngor ar gyfer y ddarpariaeth hon o dan Bŵer Brys ym mis Ebrill 2021 a'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.)

1.4 Fodd bynnag, o 5 Mai 2022, yn ogystal â'r gofyniad bod cyfranogwyr yn gallu siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd, rhaid i gyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd y mae Adran 46 y Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol iddynt gael eu darlledu, allu gweld ei gilydd a chael eu gweld gan ei gilydd.

1.5 Wrth ystyried trefniadau ar gyfer Cyfarfodydd Aml-leoliad neu bresenoldeb o bell, bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried canllawiau a/neu reoliadau Llywodraeth Cymru a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

1.6 Mae Adran 2 Canllawiau Statudol Interim Llywodraeth Cymru’n nodi nifer o egwyddorion cyffredinol i arwain awdurdodau wrth ddatblygu eu trefniadau cyfarfodydd, sef tryloywder, hygyrchedd, ymddygiad da, yr iaith Gymraeg, anghenion lleol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r canllawiau hefyd yn cadarnhau y dylai’r trefniadau cyfarfodydd gael eu hadlewyrchu yn y rheolau gweithdrefn a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

## 2. Darlledu Cyfarfodydd

2.1 Mae Adran 46 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sicrhau bod cyfarfodydd Prif Gyngor (gweler paragraff 21.2) yn cael eu darlledu'n fyw a'u bod ar gael i'w gweld yn electronig ac eithrio pan nad yw'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd (Rhan II – gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig). Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw ar wefan y Cyngor a'i archifo wedi hynny i'w weld yn y dyfodol.

## 3. Hysbysiad o Gyfarfod

3.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys ar yr Hysbysiad o'r Cyfarfod (Agenda) yn nodi sut y gall Aelodau'r Pwyllgor, Swyddogion a'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod.

3.2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Hysbysiadau o Gyfarfodydd a gwybodaeth electronig sy'n ymwneud â chyfarfodydd (h.y. gan gynnwys hysbysiadau o gyfarfodydd, agendâu, adroddiadau a phapurau cefndir) gael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a rhaid iddynt barhau i fod ar gael ar ffurf electronig am o leiaf chwe blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod.

## 4. Agendâu, Adroddiadau, Hysbysiadau Penderfynu, Cofnodion a Phapurau Cefndir

4.1 Bydd agendâu, adroddiadau, Hysbysiadau Penderfynu a Chofnodion cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Bydd nifer bach o gopïau caled ar gael i aelodau'r cyhoedd sy'n mynd i gyfarfod yn gorfforol. Mae papurau agenda ar gael o leiaf bum diwrnod clir (sy'n cynnwys penwythnosau) cyn cyfarfod.

4.2 Rhaid i Hysbysiadau Penderfynu o gyfarfod (a ddaeth i rym o dan y Ddeddf ym mis Mai 2021) ddangos penderfyniadau a wnaed, enwau'r rhai oedd yn bresennol, ymddiheuriadau; datganiadau o fuddiant a chanlyniad unrhyw bleidleisiau a rhaid eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod o fewn saith diwrnod gwaith i'r cyfarfod gael ei gynnal, gan gynnwys diwrnod y cyfarfod.

4.3 O fis Mai 2021, mae'n rhaid bod papurau cefndir hefyd wedi'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

4.4 Nid yw'n ofynnol rhoi rhybudd o gyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor mwyach. Fodd bynnag, rhaid i gopïau caled o agendâu ac adroddiadau fod ar gael i'r cyhoedd os cynhelir cyfarfodydd yn ffisegol ac mae'n ofyniad hefyd i'r Cyngor sicrhau bod darpariaeth mynediad i'r cyhoedd ar gyfer aelodau o'r cyhoedd na allant gael gafael ar ddogfennau, er enghraifft drwy ddarparu mynediad i gyfrifiaduron, copïau cyfyngedig o ddogfennau mewn cyfarfodydd neu drwy ffi neu sicrhau bod dogfennau ar gael i'w harchwilio.

## 5. Sut y Cynhelir Cyfarfodydd Ffisegol neu Aml-Leoliad (CAL)?

5.1 Mae Cyfarfodydd Aml-leoliad yn gyfarfodydd y Cyngor neu ei Bwyllgorau nad yw eu cyfranogwyr i gyd yn yr un lle ffisegol. Gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath yn y moddau canlynol:

- Hybrid – gyda rhai cyfranogwyr yn ymuno trwy ddulliau anghysbell a rhai yn mynychu'n ffisegol yn yr un lle ag eraill;
- O Bell yn Llwyr – lle mae'r holl gyfranogwyr yn cymryd rhan trwy ddulliau anghysbell.

5.2 Cyfarfodydd hybrid – yn cael eu cynnal a'u darlledu trwy ddarparwr datrysiadau cyfarfodydd hybrid y Cyngor, CIVICO, o Siambr y Cyngor (ac eithrio cyfarfodydd sydd naill ai'n rhannol neu'n gwbl gyfrinachol eu natur).

5.3 Cyfarfodydd o bell yn unig – byddant yn cael eu cynnal trwy Microsoft Teams a'u darlledu'n fyw trwy feddalwedd OBS trwy YouTube (ac eithrio cyfarfodydd sydd naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl gyfrinachol eu natur).

5.4 Cyfarfodydd cwbl ffisegol – fel arfer yn cael eu cynnal yn Siambr y Cyngor yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri ac yn cael eu darlledu trwy ddarparwr datrysiadau cyfarfodydd Hybrid y Cyngor, CIVICO (ac eithrio cyfarfodydd sydd naill ai'n rhannol neu'n gwbl gyfrinachol eu natur).

## 6. Sut galla i gymryd rhan neu arsylwi ar gyfarfod o'r Cyngor?

6.1 Diffinnir cyfranogwr mewn cyfarfod â Chyngor Bro Morgannwg fel person sy'n cymryd rhan weithredol yn y cyfarfod. Gall fod yn Aelod Etholedig, yn Aelod Cyfetholedig (gyda neu heb hawliau pleidleisio), yn un o swyddogion yr Awdurdod, yn berson sy'n rhoi tystiolaeth i Bwyllgor fel tyst, yn berson sydd wedi cofrestru i siarad mewn Pwyllgor (yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor), yn rhywun sy'n cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn (o dan weithdrefn y Cyngor) neu'n gynrychiolydd o sefydliad allanol ar Bwyllgor. [Gweler Canllawiau Siarad Cyhoeddus]

6.2 Bydd aelod o'r cyhoedd, nad yw'n cymryd rhan mewn cyfarfod, yn gallu arsylwi ar gyfarfod naill ai trwy fynd iddo'n ffisegol lle mae cyfarfod ffisegol neu Hybrid yn cael ei gynnal a/neu arsylwi ar gyfarfod o Bell neu hybrid. Diffinnir arsylwr mewn cyfarfod yn y Canllawiau Statudol Interim fel aelod o gynulleidfa, neu fel arall, sy'n nodi pwy all fod yn yr un ystafell lle cynhelir cyfarfod neu y gallai fod yn arsylwi trwy ddulliau o bell.

6.3 Mae Covid-19 wedi cael effaith ar niferoedd ffisegol a ganiateir mewn lleoliadau. O ganlyniad, gall nifer y bobl a ganiateir mewn Ystafell Gyfarfod (gan ddibynnu ar y sefyllfa, unrhyw ganllawiau a rheoliadau sydd mewn grym ar y pryd) gael eu lleihau a bydd angen eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru ac yn unol ag asesiadau risg y Cyngor a chyda mesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi mynediad a defnydd diogel.

D.S. Ar adegau lle gall fod prinder lle ffisegol i fynd i gyfarfod (e.e. o ganlyniad i bandemig COVID) neu lle gall fod problemau technolegol, bydd Cadeirydd cyfarfod, swyddogion hanfodol sy'n cefnogi'r cyfarfod a chyfieithwyr ar y pryd yn cael blaenoriaeth ar gyfer presenoldeb. O ran unrhyw arall yn y cyfarfod, bydd y Prif Weithredwr, a/neu'r Swyddog Monitro a/neu Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor a/neu Gadeirydd y Pwyllgor yn gwneud unrhyw benderfyniadau ychwanegol o'r fath. Os bydd problemau technegol yn atal darlledu'n fyw, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cofnod o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

6.4 Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Rheoli Cyfleusterau, yn sicrhau bod y niferoedd ffisegol mwyaf a ganiateir yn glir ac y bydd y system ganlynol yn cael ei rhoi ar waith:

**(i) Aelodau**

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, ar y cyd â'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, yn hysbysu pob Arweinydd Grŵp Gwleidyddol o nifer eu haelodau a ganiateir i'r Ystafell Gyfarfod (bydd y cyfrifiad yn seiliedig ar gynrychiolaeth gyfrannol y Corff Cyngor hwnnw ac asesiadau risg y Cyngor). I Bwyllgorau sydd ag Aelodau Cyfetholedig a Chynrychiolwyr Arsylwi, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi gwybod i Gadeirydd pob Pwyllgor am nifer yr Aelodau (gan gynnwys Aelodau Cyfetholedig) a ganiateir mewn ystafell gyfarfod mewn amgylchiadau eithriadol.

**(ii) Swyddogion**

Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid i sicrhau bod y swyddogion perthnasol yn bresennol yn ffisegol lle y bo'n briodol.

**(iii) Aelodau'r Cyhoedd**

Bydd aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno mynd i gyfarfod ffisegol yn Siambr y Cyngor yn gallu arsylwi o'r oriel gyhoeddus. Fodd bynnag, os bydd nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno bod yn bresennol yn fwy na'r uchafswm a ganiateir yn seddi Siambr y Cyngor, caiff seddi eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.

6.5 O ran arsylwi ar gyfarfodydd o Bell a/neu Hybrid, bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu gwylio cyfarfod trwy gael mynediad i'r ddolen i'r cyfarfod ar-lein. Gall aelodau o'r cyhoedd nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd i wylio darllediadau byw o gyfarfodydd ofyn i fynd i sesiwn wylio gyhoeddus mewn lleoliad addas yn y Swyddfeydd Dinesig trwy gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf un diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

6.6 Anogir cynghorwyr i ddod â'u dyfeisiau Cyngor i gyfarfodydd corfforol fel y gallant weld y papurau agenda ar-lein.

6.7 Mae'n ofynnol i gyfranogwr mewn cyfarfod (fel y'i diffinnir ym mharagraff 6.1 uchod) sy'n dymuno siarad yn Gymraeg neu berson sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg mewn cyfarfod, gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf 72 awr cyn y cyfarfod.

## 7. Cworwm

7.1 Cworwm cyfarfod yw chwarter yr Aelodau sy'n pleidleisio oni nodir yn wahanol yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Bydd y cworwm yn cynnwys y rhai sy'n mynychu o bell, mewn Aml-Leoliad neu'n ffisegol; ar yr amod eu bod yn gallu siarad a chael eu clywed gan ei gilydd a gallu gweld eraill a chael eu gweld ganddynt wrth gymryd rhan weithredol yn y cyfarfod.

7.2 Os yw'r niferoedd sy'n bresennol yn is na'r cworwm angenrheidiol, daw'r cyfarfod i ben ar unwaith.

7.3 Gall y Gwasanaethau Democrataidd dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelod Etholedig ar gyfer cyfarfod hyd at gyhoeddi'r Hysbysiad Penderfynu ar gyfer y cyfarfod h.y. hyd at saith diwrnod o'r cyfarfod (bydd y saith diwrnod yn cynnwys diwrnod y cyfarfod yn unol â'r Ddeddf).

## 8. Tynnu'n ôl o Gyfarfod oherwydd Buddiant Rhagfarnus

8.1 Os bydd Aelod Etholedig yn datgan Buddiant Rhagfarnus mewn cyfarfod Ffisegol, Aml-Leoliad neu o Bell, rhaid i'r Aelod dynnu'n ôl o'r cyfarfod oni bai ei fod wedi cael caniatâd gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Fodd bynnag, os gall Aelodau o'r cyhoedd siarad mewn cyfarfod, gall yr Aelod Etholedig hefyd barhau i gyflwyno'i sylwadau ond rhaid iddo adael ar ôl i'w sylwadau gael eu rhoi. (I gael rhagor o wybodaeth am ddatganiadau buddiannau mewn cyfarfodydd, gweler Cyfansoddiad y Cyngor.)

8.2 Gwahoddir yr Aelod Etholedig yn ôl i'r cyfarfod unwaith y bydd yr eitem sy'n ymwneud â'r eitem ragfarnus wedi dod i ben. Os na fydd y person hwnnw'n ymateb i'r alwad i ail-ymuno, bydd y cyfarfod yn parhau hebddo, ar yr amod bod cworwm ganddo.

## 9. Pleidleisio

9.1 Bydd y pleidleisio naill ai'n digwydd yn electronig, trwy alwad gofrestr neu gymysgedd o'r ddau.

9.2 Bydd yr holl ganlyniadau pleidleisio yn cael eu cyhoeddi naill ai gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd cyn symud i'r eitem agenda nesaf.

9.3 Os bydd Aelod yn gadael yr ystafell heb ddychwelyd, ni fydd Aelod arall yn gallu darparu ei bleidlais. Fodd bynnag, os nad yw'r ddyfais bleidleisio neu'r sain ar y gliniadur ar gael, gall yr Aelod ddefnyddio'r cyfleuster negeseuon yn y feddalwedd o bell i drosglwyddo ei bleidlais i'r Cadeirydd.

9.4 Oni ofynnir am bleidlais wedi'i chofnodi yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cadeirydd yn gofyn am gonsensws gan yr Aelodau. Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, ystyrir bod yr argymhellion wedi'u cynnal ("dim anghytuno").

9.5 Mewn cyfarfod Hybrid neu o Bell bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn electronig a bydd enwau'r rhai sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn neu sy'n ymatal yn cael eu cofnodi'n awtomatig. Os bydd pleidlais yn cael ei chynnal yn ffisegol, ymgymerir â hyn gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn y Cyngor Llawn ac ar gyfer unrhyw gyfarfod arall gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

9.6 Os na ellir cysylltu ag Aelod i ddechrau er mwyn rhoi ei bleidlais, bydd y swyddog yn dychwelyd at yr Aelod ac, yn dilyn ail ymgais, os na dderbynnir ymateb a bod cworwm yn y cyfarfod o hyd, ystyrir nad yw'r Aelod yn bresennol ar gyfer y rhan honno o'r cyfarfod.

9.7 Yr unig resymau y **dylai** cyfranogwyr o bell ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio yn y system feddalwedd yw:

- Rhoi gwybod i'r Cadeirydd eu bod yn dymuno siarad; neu
- Os yw eu sain yn methu, rhoi gwybod am y bleidlais y maent am ei gwneud.

Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd unrhyw wybodaeth a gofnodir yn y cyfleuster sgwrsio yn fater o gofnod cyhoeddus a allai fod yn destun cais Rhyddid Gwybodaeth.

D.S. Yn y llwyfan cyfarfod Microsoft TEAMS, gall Aelodau hefyd ddweud wrth y Cadeirydd eu bod yn dymuno siarad trwy ddefnyddio'r swyddogaeth "Codi Llaw". Wrth ddefnyddio’r darparwr datrysiadau cyfarfodydd Hybrid CIVICO, mae'n ofynnol i Aelodau wasgu’r botwm "Cais i Siarad" a fydd yn eu hychwanegu at y ciw siarad a reolir gan y Cadeirydd a/neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

9.8 **Ni ddylid defnyddio’r** cyfleuster sgwrsio ar gyfer trafodaethau gan fod yn rhaid i bob trafodaeth gael ei chynnal ar lafar yn y cyfarfod er mwyn unigolion sy'n gwylio’r cyfarfod a/neu'r recordiad o’r cyfarfod os gwneir recordiad.

## 10. Sut yr ymdrinnir â Materion Eithriedig?

10.1 Bydd Cadeirydd y cyfarfod yn hysbysu'r cyhoedd pan fydd y cyfarfod yn symud i sesiwn breifat (Rhan II). Rhaid i'r recordiad ddod i ben cyn i unrhyw drafodaeth ar yr eitem ddechrau. Bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cadarnhau gyda'r Cadeirydd pan fydd y recordiad wedi'i atal.

## 11. Presenoldeb Aml-Leoliad/ o Bell – A yw Aelod yn "Bresennol"?

11.1 Mae cyfarfodydd Aml-Leoliad ac o Bell yn creu heriau ychwanegol o ran presenoldeb cyfarfodydd. Mae amrywiaeth o amgylchiadau lle gallai hyn ddod yn broblem e.e. cymryd pleidleisiau, colli cysylltiad (WiFi neu ffôn symudol).

11.2 I gael ei ystyried yn bresennol, rhaid i'r Aelod allu siarad a chael ei glywed a gweld eraill a chael ei weld ganddynt os caiff y cyfarfod ei ddarlledu. Mewn cyfarfod bydd y Swyddog Monitro a/neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn darparu'r penderfyniad lleol a bydd yn ystyried materion fel ymyriadau dros dro sy'n gysylltiedig â materion cysylltu.

11.3 Ni fydd unrhyw fethiant mewn technoleg / cysylltedd sy'n arwain at golli cyswllt aelodau yn ystod y cyfarfod yn amharu ar unrhyw ran o'r trafodaethau nac unrhyw bleidlais a gymerir. Gall Cadeirydd y Pwyllgor ohirio'r cyfarfod os yw'n briodol yn ei farn ef tra bod unrhyw broblemau technegol yn cael eu datrys.

D.S. Mae gan y ddau lwyfan cyfarfodydd a weithredir gan y Cyngor swyddogaeth rhestr cyfranogwyr sy'n dangos i'r Cadeirydd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd pa gyfranogwyr sy'n gysylltiedig â'r cyfarfod ar unrhyw adeg benodol.

## 12. Cwestiynau Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Cyngor a Gweithdrefnau Siarad Cyhoeddus

12.1 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno gofyn cwestiwn yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, rhaid iddo roi hysbysiad yn unol â gweithdrefn y Cyngor sydd i'w weld yn (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx)

12.2 Gellir dod o hyd i weithdrefnau siarad cyhoeddus ar gyfer Pwyllgorau (lle mae gweithdrefnau ar waith) hefyd yn: (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Public-Participation-at-Council-Meetings.aspx)

## 13. Ffurfioldeb a Phreifatrwydd mewn Cyfarfodydd

13.1 Wrth fynychu cyfarfodydd o Bell neu Hybrid (CAL) rhaid i Aelodau Etholedig ac unrhyw gyfranogwyr sicrhau bod yr ystafell y maent yn cael mynediad i'r cyfarfod ohoni yn ddiogel a rhaid iddynt sicrhau bod drws yr ystafell ar gau fel

nad oes unrhyw darfu yn ystod y cyfarfod gan ei bod yn bwysig sicrhau rhywfaint o ffurfioldeb yn y trafodion.

13.2 Anogir cyfranogwyr i ddefnyddio cefndir "corfforaethol" addas. (Bydd llyfrgell o ddelweddau cefndir "corfforaethol" ar gael i'r Aelodau eu defnyddio.) Cofiwch, gan y bydd trafodion yn fyw, bydd gwylwyr yn gallu eich gweld yn gweithio yn eich cartref i bob pwrpas.

13.3 Atgoffir yr Aelodau o'u cyfrifoldebau o dan God Ymddygiad yr Aelodau yn ystod cyfarfodydd ac yn arbennig wrth ystyried eitemau sydd wedi'u heithrio yn ystod cyfarfod. Dylai Aelodau sicrhau na ellir eu clywed yn ystod trafodaethau ynghylch gwybodaeth gyfrinachol. Dylai Aelodau ystyried defnyddio clustffonau ar gyfer cyfarfodydd o'r fath a sicrhau eu bod yn cynllunio ymlaen llaw.

## 14. Rheolau mewn Cyfarfodydd o Bell / Aml-Leoliad

14.1 Dylai cyfranogwyr:

- (i) Wisgo’n briodol ar gyfer y cyfarfod;
- (ii) Sicrhau bod eu meicroffon yn fud os nad ydynt yn siarad;
- (iii) Parchu'r Cadeirydd ac eraill sy'n bresennol;
- (iv) Ymddwyn yn briodol a bod yn ystyriol o God Ymddygiad yr Aelodau; a
- (v) Defnyddio’r cyfleuster sgwrsio'n briodol.

14.2 Ymddygiad Aflonyddgar – Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r person dan sylw. Os bydd yn parhau i darfu ar y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo gael ei symud o’r cyfarfod. O ran Aelodau Etholedig, bydd y weithdrefn a amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn gymwys (gweler Adran 4.27).

**15.** Bydd pob cyfarfod yn cael ei hwyluso gan Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**16.** Bydd angen yr offer TGCh canlynol gan gyfranogwyr ar gyfer cyfarfodydd Hybrid ac o Bell –

- Meicroffonau / Clustffonau;
- Camerâu – os caiff cyfarfod ei ddarlledu;
- Mynediad cyflym i'r Rhyngrwyd; a
- Mynediad i'r feddalwedd berthnasol (Chrome - porwr rhyngrwyd) sy'n cael ei defnyddio ar gyfer y cyfarfod.

## 17. Dolenni Gwylio a Mynychu Cyfarfodydd

17.1 Ar gyfer Aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno gwylio’r cyfarfod, bydd y ddolen i'r agenda ac i ddarllediad y cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor.

17.2 Anfonir dolen at Gyfranogwyr sy'n bresennol ni waeth a fydd y cyfarfod yn cael ei gynnal trwy ddulliau Hybrid neu o Bell ai peidio.

## 18. Calendr Cyfarfodydd

18.1 Cytunir ar Galendr Cyfarfodydd y Cyngor yn flynyddol a gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn [Cyfarfodydd y Cyngor]. Bydd y Calendr hefyd yn cynnwys manylion amserau’r cyfarfodydd. Fodd bynnag, gall cyfarfodydd fod yn destun newid neu gall cyfarfodydd ychwanegol gael eu cynnwys yn y Calendr gan Gadeirydd Pwyllgor a/neu'r Prif Weithredwr, yn ôl yr angen. Am fanylion y lleoliadau neu a fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ffurf Hybrid neu o Bell, gofynnir i aelodau o'r cyhoedd ddarllen y papurau agenda ar-lein unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi cyn y cyfarfod (gweler Adran 4 uchod).

18.2 Yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol, bydd y Cyngor yn cael cyfle i bennu'r dyddiad a'r amser mwyaf addas ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Bydd y Cyngor hefyd yn gallu ystyried ym mhob blwyddyn Bwrdeistrefol pa gyfarfodydd a gynhelir yn bennaf yn ffisegol, o Bell neu'n Hybrid a hefyd yn ystyried Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Cyngor.

## 19. Gwahoddiadau i Gyfarfodydd ar gyfer Cyfranogwyr

19.1 Bydd gwahoddiadau'n cael eu rhoi i bawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn electronig, a bydd y gwahoddiad yn nodi a fydd y cyfarfod yn Hybrid, o Bell neu'n ffisegol.

- Ar gyfer cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal ar ddatrysiad cyfarfodydd Hybrid CIVICO, bydd Aelodau'n derbyn nodyn atgoffa calendr Microsoft Outlook ar gyfer y cyfarfod ond bydd gofyn iddynt fewngofnodi i'w cyfrif CIVICO i ymuno â'r cyfarfod ar yr adeg briodol.
- Ar gyfer cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal ar Microsoft Teams, bydd y ddolen ymuno URL ar gyfer y cyfarfod yn cael ei chynnwys o fewn y gwahoddiad Outlook ei hun.

19.2 Bydd Aelodau Etholedig a swyddogion yn cael eicon llwybr byr ar eu bwrdd gwaith ym Mro Morgannwg i gysylltu â’r darparwr datrysiadau cyfarfodydd Hybrid, CIVICO a Microsoft Teams, p'un a yw'r cyfarfod yn cael ei gynnal o bell neu'n Hybrid (CIVICO yn unig).

19.3 Bydd cyfranogwyr eraill sy'n mynychu o bell – aelodau o'r cyhoedd a/neu dystion – yn cael dolen URL i ymuno â'r cyfarfod.

19.4 Cyn cyfarfodydd bydd Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd sy'n cefnogi pob un o Bwyllgorau'r Cyngor hefyd yn cysylltu â siaradwyr cofrestredig a/neu dystion i roi cymorth os oes angen.

D.S. Cynghorir pawb sy'n cymryd rhan i gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn Democratic@bromorgannwg.gov.uk neu ffonio 01446 709413 o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod os bydd angen cymorth arnynt cyn y cyfarfod.

## 20. Cofnodi Presenoldeb

20.1 Bydd presenoldeb pob aelod o'r Pwyllgor yn cael ei gofnodi gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sy'n cefnogi'r Pwyllgor. Caiff y cofnodion hyn eu cyfuno a'u hychwanegu at Hysbysiad Penderfynu a chofnodion y cyfarfod cyn eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

20.2 Bydd aelodau'r Pwyllgor yn hysbysu'r Gwasanaethau Democrataidd o fewn saith diwrnod ar yr hwyraf (gan gynnwys diwrnod y cyfarfod) os na allant fod mewn cyfarfod a bydd eu hymddiheuriadau'n cael eu cofnodi yn Hysbysiad Penderfyniad y cyfarfod ac wedi hynny y cofnodion.

## 21. Darlledu Cyfarfodydd

21.1 Nid yw darlledu cyfarfodydd yn disodli cofnod ffurfiol y cyfarfod ac ynghyd â'r penderfyniadau a wneir, byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u cadw ar ffurf copi caled yn unol â pholisi cadw'r Cyngor.

21.2 O ystyried adran 46 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, y cyfarfodydd sydd i'w cynnal a'u darlledu ar ffurf Hybrid (ac eithrio cyfarfodydd sy'n gwbl gyfrinachol neu'n rhannol gyfrinachol eu natur) yw cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Cabinet, Cynllunio, Llywodraethu ac Archwilio a chyfarfod o'r Pwyllgor Craffu sydd i ystyried mater o ddiddordeb sylweddol ledled y Sir. Cadeirydd y Pwyllgor Craffu sy'n penderfynu ar fater o ddiddordeb sylweddol ledled y Sir ar y cyd â'r Prif Weithredwr.

21.3 Bydd cyfarfodydd eraill y Pwyllgor (gan gynnwys y Cyfarfod Blynyddol) yn cael eu cynnal a'u darlledu o Bell (ac eithrio cyfarfodydd sy'n gwbl gyfrinachol neu'n rhannol gyfrinachol eu natur) neu oni bai bod Cadeirydd y Pwyllgor perthnasol yn penderfynu fel arall ar y cyd â'r Prif Weithredwr a/neu Swyddog Monitro a/neu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd). Gellir cynnal rhai cyfarfodydd fel y Pwyllgor Penodi Uwch Reolwyr 'wyneb yn wyneb' yn unig (e.e. lle mae cyfweliadau'n cael eu cynnal) ac felly ni fyddant yn cael eu darlledu lle maent yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Rhan II eu natur.

D.S. Cynhelir holl gyfarfodydd y Pwyllgor, fel yr amlinellir yn Adran 21 uchod, a'u darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor a chaiff y recordiadau eu lanlwytho wedi hynny i'w gwylio yn y dyfodol ar wefan y Cyngor.

21.4 Bydd yr holl agendâu ar wefan y Cyngor yn nodi'n glir a fydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ffurf Hybrid neu o Bell a/neu'n ffisegol.

## 22. Llwyfannau Cyfarfodydd Ar-lein

22.1 Bydd y Cyngor yn defnyddio llwyfan cyfarfodydd Hybrid CIVICO fel ei brif datrysiad cyfarfodydd o Bell / Hybrid ar gyfer cynnal a darlledu cyfarfodydd Hybrid a Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd o Bell. Mae gofynion logisteg a thechnolegol ar gyfer rheoli recordiadau fideo a sain ar gyfer aelodau sy'n rhannu lle ffisegol ochr yn ochr ag unigolion sy'n ymuno o bell â thechnoleg arbenigol sy'n cael ei bodloni ar hyn o bryd trwy ddarparwr gweddarlledu'r

Cyngor, CIVICO. Anogir aelodau i ddefnyddio eu dyfeisiau'r Fro wrth fynychu cyfarfodydd. Bydd aelodau'r Pwyllgorau hefyd yn gallu defnyddio llwyfan cyfarfodydd Microsoft Teams mewn cyfarfodydd o Bell ac mewn trafodaethau a gohebiaeth anffurfiol o ddydd i ddydd.

D.S. Mae'r Aelodau'n gyfrifol am sicrhau mynediad i'r rhyngrwyd cyflym digonol wrth ymuno o bell. Gellir darparu cyngor ar y safonau gofynnol lle bo angen. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb pe bai Aelod yn dewis defnyddio dyfais bersonol ac yn dod ar draws materion cysylltedd cyn neu yn ystod cyfarfod y mae'n dymuno bod yn rhan ohono.

## 23. Mynychu Cyfarfodydd o Dramor

23.1 Bydd Aelodau sy'n dymuno mynychu cyfarfodydd tra byddant y tu allan i'r wlad a defnyddio eu dyfeisiau personol neu gyngor Bro Morgannwg eu hunain yn gallu gwneud hynny trwy ddefnyddio cyfleusterau Wifi am ddim gan na fydd y Cyngor yn gallu ad-dalu costau. Fodd bynnag, er mwyn galluogi mynediad i gyfarfodydd ar liniaduron y Fro dramor, bydd yn ofynnol i Aelodau hysbysu'r Ddesg Gwasanaeth TGCh a/neu'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf **bythefnos** cyn gadael fel y gellir rhoi'r mesurau diogelwch angenrheidiol ar waith ar y ddyfais mewn pryd.

23.2 Pe bai Aelodau'n dymuno cael mynediad i gyfarfodydd gan ddefnyddio ffonau symudol, oherwydd cost galwadau rhyngwladol, ni fyddai'r Cyngor yn gallu ad-dalu costau galwadau gyda mynediad trwy ffonau personol neu arall, pan fydd hynny'n fater i'r Aelod.

23.3 Ni fydd swyddogion TGCh na Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn gallu darparu cymorth technegol ar unrhyw ddyfeisiau a gefnogir gan y Cyngor tra byddant dramor.

## 24. Gwybodaeth Gyfrinachol ac Eithriedig (Rhan III)

24.1 Efallai na fydd rhywfaint o wybodaeth, yn unol â'r Ddeddfwriaeth, ar gael i'r cyhoedd. Gelwir hyn yn wybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (Rhan II). Pan gaiff y math hwn o wybodaeth ei ystyried mewn cyfarfod ffurfiol, caiff y dogfennau eu cyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor a dim ond i'r rhai sydd â hawl i'w gweld y maent ar gael. Fel arfer, caiff materion o'r fath eu trefnu ar ddiwedd agenda er mwyn lleihau unrhyw anghyfleustra i arsylwyr y bydd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod cyn i'r eitemau gael eu hystyried. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd a'r wasg gael eu heithrio o'r cyfarfod (p'un a yw'r cyfarfod yn cael ei gynnal trwy ddulliau o Bell, Hybrid neu ffisegol) cyn parhau â'r agenda. Bydd unrhyw recordiad o'r cyfarfod hefyd yn gorffen.

24.2 Os bydd cyfarfod yn cael ei ddarlledu, bydd y recordiad yn cael ei oedi a bydd hysbysiad yn cael ei arddangos ar y darllediad nad yw'r cyfarfod ar agor i'r cyhoedd mwyach.

**25. Hyfforddiant**

25.1 Bydd pob Aelod a swyddog yn cael hyfforddiant i allu cymryd rhan mewn cyfarfodydd a fydd yn cynnwys defnyddio meddalwedd llwyfan y cyfarfod ar gyfer ymuno â chyfarfodydd o Bell a defnyddio'r meicroffonau yn Swyddfeydd y Cyngor pan gynhelir cyfarfodydd yn gorfforol yn yr adeilad. Bydd cyfranogwyr eraill hefyd yn cael cymorth gan y Gwasanaethau Democrataidd ynghylch sut i gael mynediad i'r cyfarfod.

**26. Cymorth ar gyfer Cyfarfodydd**

26.1 Yn y lle cyntaf, darperir cymorth ar gyfer cyfarfodydd gan Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn sicrhau'r canlynol:

- Anfon agendâu trwy e-bost (o leiaf 5 diwrnod clir, sy'n cynnwys penwythnosau, cyn y cyfarfod);
- Monitro presenoldeb mewn cyfarfodydd o Bell a chynorthwyo unrhyw gyfranogwr i ymuno neu ail-ymuno â'r cyfarfod;
- Hwyluso'r cyfarfod a'r pleidleisio a chymryd cofnodion y cyfarfod. (Cynhelir y pleidleisio yn y cyfarfod yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor ac yn unol ag Adran 9 y Polisi hwn)
- Hwyluso recordio a ffrydio cyfarfodydd yn fyw (ar y cyd â swyddog TGCh).

**<u>Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu</u>**

(Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn atodol i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor sydd wedi'i gysylltu isod)
www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn benodol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

Mae Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn darparu cymorth a gweinyddiaeth ar gyfer system Bwyllgorau'r Cyngor er mwyn iddo weithredu'n effeithiol.

Yn benodol mae'n:

- Trefnu ac amserlennu cyfarfodydd,
- Yn penderfynu a fydd y cyfarfod yn un cyhoeddus,
- Yn cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn ymwneud â'r cyfarfod,
- Yn gwahodd unigolion i fynychu,
- Yn ymdrin â gohebiaeth a dderbyniwyd yn ymwneud â busnes y cyfarfod,
- Yn ymdrin ag ymholiadau yn ymwneud â busnes y cyfarfod,
- Yn cymryd cofnodion y cyfarfod perthnasol,
- Yn cyhoeddi papurau agenda a chofnodion,
- Yn delio ag unrhyw fater arall sy'n berthnasol i fusnes y cyfarfod,
- Yn trefnu i gadw dogfennau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.

Yng nghyd-destun yr hysbysiad hwn mae'r gair cyfarfod yn cynnwys:

- Cyfarfodydd y Cyngor
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau'r Cyngor
- Pwyllgor Craffu
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau Craffu'r Cyngor
- Pwyllgor Apeliadau Addysg
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n cael eu cynorthwyo gan y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu

Er mwyn hyrwyddo Llywodraeth a Democratiaeth agored cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus ac yn unol â hynny bydd unrhyw beth a drafodir yn y cyfarfodydd hynny yn gyhoeddus a bydd unrhyw gofnodion, recordiadau neu we-ddarllediadau hefyd yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae yna rai amgylchiadau lle nad yw'n briodol i faterion gael eu trafod yn gyhoeddus, er enghraifft busnes personol unigolion neu wybodaeth sy'n sensitif yn ariannol / fasnachol. Bydd agenda'r cyfarfod yn egluro sut y bydd gwybodaeth yn cael ei thrin.

Yn unol â hynny, os ydych:

- yn cyflwyno gwybodaeth i'w thrafod mewn Pwyllgor, neu
- yn mynd i gyfarfod Pwyllgor er mwyn siarad, neu
- yn cyflwyno dogfennau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno deiseb i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno sylwadau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno neu'n darparu dogfennau / deisebau ar ran eraill.

Ymdrinnir â'r wybodaeth hon yn agored ac yn gyhoeddus oni bai nad yw'r cyfarfod, neu ran o'r cyfarfod, sy'n ei drafod yn gyfarfod cyhoeddus yn unol â'r darpariaethau eithrio gwybodaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Os ydych yn cael gwybodaeth oddi wrth drydydd parti mae angen i chi sicrhau eu bod yn deall yr uchod a **chydsynio** i'w gwybodaeth gael ei rhoi yn y parth cyhoeddus. Gall y Cyngor ofyn i chi gadarnhau hyn ac efallai na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi ymhellach oni bai ein bod yn fodlon bod trydydd partïon wedi cael gwybod am hyn.

## Sut rydym yn casglu gwybodaeth gennych?

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych pan fyddwch yn ymweld â https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx. Hefyd, pan fyddwch yn cysylltu â ni yn ysgrifenedig, yn siarad â ni ar y ffôn, yn danfon e-bost neu'n siarad â ni wyneb yn wyneb.

**Pa fathau o wybodaeth rydym yn eu casglu gennych?**

Er mwyn darparu'r gwasanaeth, efallai y bydd angen i'r Cyngor brosesu rhan neu gyfan o bob un o'r categorïau gwybodaeth bersonol a ganlyn ynghylch aelodau'r cyhoedd neu aelodau etholedig:

- Enw a theitl
- Cyfeiriad
- Rhif Cyswllt
- Cyfeiriad e-bost
- Sylwadau sy'n ymwneud â busnes y Cyngor
- Gofynion arbennig er mwyn mynychu cyfarfodydd, gan gynnwys siarad yn Gymraeg.

**Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Yn unol â'n tasgau cyhoeddus mae'r canlynol yn berthnasol:

- I'w defnyddio yn y cyfarfod fel y nodir uchod a lle bo angen enwau a sylwadau a wnaed wedi'u cofnodi yn y cofnodion,
- Wrth gofrestru i siarad mewn pwyllgorau, bydd manylion aelodau'r cyhoedd yn cael eu cynnwys yng nghronfa ddata gyfrifiadurol y Cyngor.
- Gellir rhannu unrhyw gofrestriadau i siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor ac unrhyw wybodaeth a gyflwynir i gynghorwyr a Gwasanaethau Democrataidd gyda swyddogion y cyngor a phartneriaid cysylltiedig (e.e. sefydliadau y mae'r Cyngor yn cydweithio â hwy i ddarparu gwasanaethau) i dderbyn eu sylwadau a'u hystyriaeth broffesiynol.
- Gellir cadw unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig a ddaw i law ar ffeil er mwyn i'r Cyngor gyfeirio ati yn y dyfodol.
- Galluogi Aelodau neu swyddogion y Cyngor i ymchwilio neu gynorthwyo gydag unrhyw faterion y gallech fod wedi'u codi. Hefyd, fel y gallwn roi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau.
- Cyfeirio eich sylwadau cyhoeddus ar draws Pwyllgorau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Os rhoddir eich caniatâd datganedig, rhannwch gydag aelodau eraill o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad er mwyn enwebu siaradwr.

**Pwy all weld eich gwybodaeth?**

Yn gyffredinol byddwn ond yn rhannu data personol gyda staff Cyngor Bro Morgannwg neu aelodau etholedig y mae ei angen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau. Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, os caiff ei drafod mewn cyfarfod cyhoeddus, bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn dibynnu ar nifer o eithriadau, sy'n ein caniatáu i rannu gwybodaeth heb fod angen nodi sail gyfreithlon ar gyfer y rhannu a heb fod angen rhoi gwybodaeth i chi am y rhannu.

## Seiliau cyfreithiol

Dyma ein **seiliau cyfreithiol** ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol:

- Caniatâd.
- Os yw'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir gennym er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod a freiniwyd ynom.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu eich buddiannau hanfodol chi neu fuddiannau unigolyn arall.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

## Beth yw'ch hawliau o ran y data personol rydym yn ei brosesu?

- **Mynediad** – gallwch ofyn am gopïau o unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch a gedwir gan y Cyngor.
- **Cywiro** - gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir.
- **Dileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol. Gall y Cyngor wrthod dileu gwybodaeth os oes gennym reswm cyfreithiol dros ei chadw.
- **Hygludedd** – gallwch ofyn i ni drosglwyddo eich data personol i wahanol wasanaethau neu atoch chi.
- **Hawl i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu arno** – mae gennych yr hawl i wrthwynebu sut mae eich data'n cael ei ddefnyddio a sut bydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.
- **Hawl i atal penderfyniadau awtomatig** – mae gennych yr hawl i herio penderfyniad sy'n effeithio arnoch sydd wedi'i wneud yn awtomatig heb ymyrraeth gan fod dynol.

## Am faint y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw a dileu'r holl gofnodion yn unol â'n hamserlen cadw cofnodion.

Cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Democrataidd ar 01446 709 855 neu Democratic@bromorgannwg.gov.uk am ragor o wybodaeth.

## Pa fesurau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth rhag cael ei cholli, ei newid neu'i chamddefnyddio?

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i ddiogelu data a byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei chamddefnyddio, ei newid neu ei lygru, a rhag mynediad anawdurdodedig. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau corfforol, electronig a rheoliadol ar waith i ddiogelu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Fodd bynnag, ni allwn warantu diogelwch unrhyw wybodaeth rydych yn ei hanfon atom. Rydym yn argymell eich bod yn cymryd pob cam posib i warchod eich gwybodaeth bersonol.

**Darlledu**

Sylwer y bydd rhai o gyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu darlledu. Byddwch yn cael gwybod ar lafar os bydd y cyfarfod rydych yn rhan ohono'n cael ei ddarlledu. Os felly, mae hyn yn golygu eich bod yn cael eich recordio'n weledol ac mewn sain a bod hyn ar gael ar y rhyngrwyd. Gwneir hyn at ddibenion cefnogi a hyrwyddo ymgysylltu democrataidd a budd y cyhoedd. Byddwn yn cadw'r data am 6 blynedd ac yna'n ei gynnig i'r Archifydd yn Archifdy Morgannwg ar gyfer cadw'n barhaol. Mae gennych hawl i wneud cais i gael mynediad at, i gywiro, i gyfyngu, i wrthwynebu neu i ddileu'r data hwn.

**Cwynion**

Os hoffech wneud cwyn am y defnydd o'ch data personol gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

**Drwy'r post:** Uned Rhyddid Gwybodaeth
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU.

**Dros y ffôn:** 01446 700111.

**E-bost:** DPO@bromorgannwg.gov.uk

I gael cyngor annibynnol ar faterion rhannu data, preifatrwydd a diogelu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn www.ico.org.uk

Am ragor o wybodaeth am y weithdrefn hon, cysylltwch â:

Gwasanaethau Democrataidd drwy e-bost – Democratic@bromorgannwg.gov.uk

Cyfeiriad: Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU

Rhif Ffôn: 01446 709413